| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mehefin 2017** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Reolwr: Gwasanaethau Cefnogi** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-2017** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae pob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gorfod llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.

1.2 Mae adroddiad blynyddol 2016-17 ynghlwm yn Atodiad I. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I alluogi'r Aelodau i archwilio'r adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2016-2017;

3.2 Bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon perfformiad sydd angen eu harchwilio ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 At ei gilydd, dengys yr adroddiad bod Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr, a'n bod wedi perfformio'n rhagorol mewn meysydd sy'n bwysig i'n cymunedau. Rydym hefyd yn parhau i drawsnewid ein gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau a gyflwynwyd oherwydd gostyngiadau mewn cyllid yn y sector cyhoeddus ar adeg lle bo mwy o bwysau o ran costau, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

4.2 Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi sawl maes lle'r ydym yn ceisio gwella perfformiad ymhellach a'r cynlluniau sydd gennym ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni'r ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl; a
- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ei hun yn costio unrhyw beth (ac eithrio amser swyddogion), ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau a'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y dyfodol i'r gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr adroddiad yn cael eu cyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, mae rhai o'r themâu a gwmpesir yn yr adroddiad, ee cefnogi annibyniaeth a gwella lles, yn agendâu corfforaethol yn hytrach na chyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer y Cyngor cyfan, bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein holl wasanaethau, er enghraifft gwasanaethau tai, priffyrdd, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol a hamdden, wedi eu cynllunio i hyrwyddo annibyniaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol ei hunan gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad yn ystod 2016-17, ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd Asesiadau o Effaith ar Les yn cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol hwn, pan fo'r angen.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â'n gwasanaethau yn ffurfio rhan o'n system sicrwydd ansawdd presennol ac wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad hwn.

8.2 Fel yr arfer, bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid (e.e. iechyd, 3ydd sector) ar gyfer sylwadau, cyn ei gyhoeddi.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach y cyngor.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol ac Addysg a Gwasanaethau Plant. Gan fod hwn yn adroddiad am Wasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, caiff unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a drafodir gan yr adroddiad hwn (a chamau gweithredu i'w lliniaru a'u rheoli) eu cynnwys yn y cofrestri risg gwasanaeth.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2 Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â monitro perfformiad ac amcanion polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhif ffôn: 01824 706149